Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 09fed o Dachwedd 2023 Yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

Agenda

1. **Presennol: /Present**
2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
3. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
4. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 12fed o Hydref / October 2023**
5. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
6. **Materion ariannol / Financial Issues**
    i. **Mantolen ariannol / Financial report**
    ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 01/11/2023**

7. **Cynllunio / Planning**

C23/0653/25/LL Lleoliad Tan Y Grisiau Lôn Tan Y Grisia, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4YB Codi bloc stablau ac adeiladu menage

C23/0346/25/LL Lleoliad Old Manor House, Parc Y Faenol, Bangor, Gwynedd, LL57 4BP Newid defnydd cyn stablau i dy annedd gyda estyniad cefn

8. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
    a. **Cyfarfod ynglyn a Canolfan Penrhosgarnedd**
    b. **Sedd Wag**
    c. **Ethol Is-Gadeirydd**
    d. **Materion eraill**
        - **Rhandiroedd cyhoeddus**
        - **Capel y Fynwent**
        - **Lon Plas Pentir**
        - **Coed a Goleuadau Nadolig**

9. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

Cyng D Jones Morris Newid Bin baw cwn sy'n Coed y Maes i Fin Gwyrdd arferol
Cyng L A James Marchnata ein canolfannau cymunedol drwy Papurau Bro

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Hydref 2023
Yng Nghanolfan Gymunedol Penrhos am 7.00 y.h

1. **Presennol: /Present Cadeirydd Cyng D Jones-Morris, Cyng L A James, Cyng M Baines. Cyng A Joyce, Cyng C Owen, Cyng J Pierce, Cyng B Jones a Cyng I Ellis**
   Hefyd yn bresennol, E Jones Clerc a'r cyfieithydd S E Jones

2. **Ymddiheuriadau: Apologies Cyng J Lewis, Cyng J Griffiths a Cyng M Lynch,**
3. **Datgan buddiant / Declaration of interest** Cyng M Baines Cyng A Joyce a Cyng L A James yn aelodau o bwyllgor Rheoli Canolfan Cymuned Penrhos

4. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 14eg o Fedi / September 2023**
   Derbynwyd fel rhai cywir gydag ychwanegiadau yn 9. Materion y Clerc
   a) Fod y Cyng M Baines wedi mynegu ein dehongliad hi o'r sefyllfa parthed dylestswydd pwy oedd rheoli y maes parcio a bod y dyletswydd hwnnw hefo'r Pwyllgor rheoli ag yn
   b) ychwnegu'r geiriau ar gais aelod o'r cyhoedd a rhyngddo ef a swyddogion Gwynedd gan wahodd yr Aelod Lleol yn unig a neb o Cyngor Pentir
5. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
   Llwybr Llesiant Ffordd Penrhos
   Gwahoddiad i Aelodau Lleol ardal Bangor gyfarfod wrth Ysgol y Faenol 13/10/23 i gael eu diweddaru gan y swyddogion o Wynedd
   Cytunodd Cyng M Baines ein diweddaru o unrhyw addasiadau yn y cyfarfod nesaf
   Giat y Maes Parcio
   Adroddwyd nad oedd posib cau y giat oherwydd eu cyflwr a'i bod hefyd wahaniaeth yn lefel y ddwy giat
   Esbonwyd mae yr 'hen' giat sydd wedi ei ail-osod yn ogystal a'r hen bolyn. Pan eu bont ar agor mae'r ddwy yn lefel ond os bydd angen eu cau / cloi yna bydd rhaid defnyddio cadwyn a chlo
   Datrysiad 'dros dro' yw'r ail-osod beth bynnag
   Cyngor Cyfreithiol
   'Roedd y Clerc wedi rhannu y Cyngor Cyfreithiol ysgrifennedig oedd Cwmni Gamlins wedi ei anfon atom
   Pwysleisiodd y Cadeirydd mae dyna oedd y Cyngor Cyfreithiol oedd Cyngor Pentir wedi ei dderbyn, a bod yn rhaid i ni fel cyngor ei dderbyn y Cyngor hwnnw hyd yn oed os oes un neu ddau yn anghytuno.
   Aeth y Cadeirydd ymlaen i ddweud y dylai ni hefyd dderbyn gwahoddiad Prif-weithredwr Gwynedd i gyfarfod ond mynnu bod ein cyfreithiwr yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw
   Trafodwyd fod Yswiriant y Ganolfan i fod yn cynnwys nid yn unig enw Cyngor Pentir ond hefyd enw Cyngor Gwynedd ag y dylai hynny fod mewn grym
   Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor rheoli nad oedd hynny'n bosib a'i bod wedi holi am hynny gan ychwanegu fod y Cwmni Ysw wedi cadarnhau iddi fod y polisi yn cyfro unrhyw ddigwyddiad/ddamwain allai ddigwydd i unrhyw un ar y safle

Cyng L A James yn cynnig gwelliant i'r Clerc holi ynghlyn a chynnwys y ddwy Ganolfan o dan Polisi Yswiriant Cyngor Pentir
Clerc i wneud ymholiad am hefo Gallaghers

6. **Materion ariannol / Financial Issues**

   i. **Mantolen ariannol / Financial report**
   Wedi eu rannu o fewn y gwaith papur
   ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 27/09/2023**
   Y Cofnodion wedi eu rhannu ag aethpwyd drwyddynt ar lafar

7. **Cynllunio / Planning**
   a. C23/0720/25/DA Lleoliad Rhos Bach, Lôn Tŷ'n Llwyn, Pentir, LL56 4QE Diwygiad ansylweddol i gais cynllunio C22/0849/25/LL ar gyfer codi sied amaethyddol newydd i alluogi newid yr uchder o 8 troedfedd i 14 troedfedd ar gyfer gosod drws caead rholio **Dim Gwrthwynebiad**
   b. C23/0695/25/RA Lleoliad Fodol Ganol Ffordd Y Fodolydd, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QD Cais i ryddhau amodau 3 (llechi to), 5 (arolwg ffotograffig) & 7 (asesiad risg bio-ddiogelwch) o ganiatâd cynllunio C21/0397/25/LL ar gyfer dymchwel y tŷ presennol a chodi tŷ newydd yn ei le. **Dim Gwrthwynebiad**

8. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
   a. **Ymateb Cyfreithiol ynglyn a Canolfan Penrhosgarnedd Y**
   Cyngor Cyfreithiol wedi ei rannu hefo pob aelod
   b. **Sedd Wag**
   Clerc i anfon llythyr at Dewi W Jones i ddiolch am ei wasanaeth
   Bydd y Sedd wag achlysurol yn cael ei hysbysebu ar ein Gwefan a hefyd yn y ddau hysbysfwrdd sydd ar ward Faenol
   c. **Materion eraill**
      - **Capel y Fynwent**
      Dal i ddisgwyl am arweiniad ynglyn a spec y llawr gan Cadarn
      - **Lon Plas Pentir**
      Angen ysgrifennu'n ffurfiol ar Gamlins i amlinnellu beth yn union yda ni ei angen i gychwyn y broses mabwysiadu

9. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

Cyng M Baines Parcio anystyriol Pont Britannia
Swyddog trafnidiaeth Gwynedd wedi holi am farn y Cyngor ynglyn a pharcio anystyriol ar ffordd yn Parc Menai ag os oes angen gwahariad parcio ar y lon honno.
Holwyd os oedd posib cael mwy o fanylion am yr union leoliad yn ogystal a oedd peryg mae symud y broblem parcio i leoliad arall fyddai gwaharddiad **Cyng M Baines am holi ymhellach a rhannu'r wybodaeth gyda gweddill y Cyngor**
Arwyddion Cyflymder Ffordd Menai / Lon Dywyll
Erbyn heno cadarnhad fod yr arwyddion wedi eu gosod **Dim angen gweithredu pellach**
Cyng C Owen Diweddariad o'r Is-Grwp Uwchraddio y We

Cyngor Cymuned Pentir

Adroddiad wedi ei rhannu ynglyn a chyfarfod cyntaf o'r is-grwp a Cyng L A James oedd wedi methu mynychu'r cyfarfod cyntaff yn cadarnhau ei pharodrwydd i gyd-weithio a phontio rhwng y Grwp a Delwedd

Diolchwyd i'r Is-grwp am eu gwaith

Cyng L A James - Parchu Pentir

Panel Hanes Pentir Adroddodd iddi hi y Clerc a Cyng J Lewid fynychu cyfarfod yn Neuadd Rhiwlas i geisio darganfod be yn union ddylai gael ei gynnwys ar y Panel Hanes ar gyfer Sgwar Pentir Mi fydd cyfarfod pellach, posib yn y flwyddyn newydd, yn cael ei drefnu cyn dod i'r casgliad terfynnol

Ansawdd y ffordd wrth Pont Felin

Nodwydd fod tyllau o bopty ac ar y Bont angen sylw **Clerc i gysylltu a Gwynedd**

Arwyddion cyflymdra ceir

Holwyd os oedd posib cael arwyddion yn dangos cyflymdra ceir ar yr **A4244**

Clerc i holi Gwynedd

Cais i gael Coeden Nadolig yn ardal Pentir

Nid oedd y cais yma yn gais na chafwyd o'r blaen a cytunwyd i beilotio yn Pentir a Penrhos am eleni

Clerc i wneud ymholiadau a prisio